Concordat rhwng y Cyrff sy'n Arolygu, Rheoleiddio ac Archwilio Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

Cefndir

Mae cyrff adolygu allanol sy'n arolygu, rheoleiddio ac archwilio iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi datblygu set o egwyddorion ac arferion ac wedi cytuno arnynt (Concordat) i gefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau ar gyfer cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ac i gael gwared ar unrhyw faich diangen a ddaw yn sgil adolygiadau allanol. Atodir y Concordat gyda'r llythyr hwn.

Concordat Cymru

Mae'r Concordat, sy'n gytundeb gwirfoddol rhwng y cyrff adolygu allanol hunanlywodraethol, yn nodi'r egwyddorion canlynol :

- Caiff adolygiadau allanol eu cydgysylltu ag adolygiadau a chasgliadau eraill o ddata
- Mae adolygiadau allanol o ofal iechyd yn canolbwyntio ar brofiad cleifion, defnyddwyr gwasanaethau eraill a gofalwyr
- Mae adolygiadau allanol yn cefnogi gwelliannau mewn ansawdd a pherfformiad
- Mae cyrff adolygu allanol yn gwella eu dulliau yn barhaus
- Mae adolygiadau allanol yn annibynnol, yn gyson a theg
- Mae adolygiadau allanol wedi'u targedu ac maent yn gymesur
- Mae adolygiadau allanol yn dryloyw ac yn atebol

- Mae cyrff adolygu allanol yn defnyddio dulliau cydgysylltiedig a chymesur o weithredu
- Mae adolygwyr allanol yn meddu ar y cymwysterau a'r sgiliau addas ac wedi'u hyfforddi'n briodol
- Mae cyrff adolygu allanol yn monitro eu harferion yn barhaus yn unol â'r concordat

Pwynt Cyswllt Canolog ar gyfer Sylwadau ac Awgrymiadau

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu cymorth ysgrifenyddol i lofnodwyr y Concordat er mwyn hybu'r gwaith o weithredu'r arferion. Un o elfennau allweddol y cymorth hwn fydd gweithredu fel pwynt cyswllt canolog ar gyfer y sefydliadau hynny sy'n destun adolygiad allanol.[1]

Y Camau Nesaf

Mae rhaglen waith yn cael ei datblygu ar hyn o bryd er mwyn sicrhau y gweithredir arferion y Concordat yn effeithiol.

Un o nodweddion allweddol y rhaglen weithredu fydd y modd y caiff arferion eu blaenoriaethu ar gyfer eu gweithredu. Yn amlwg, byddwn yn awyddus i flaenoriaethu'r arferion hynny a fydd yn dod â'r fantais fwyaf cyn gynted ag sy'n bosibl. Fodd bynnag, bydd yn hanfodol bod blaenoriaethau gweithredu yn ystyried sylwadau'r GIG a darparwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn croesawu safbwyntiau a sylwadau'r cyrff hynny sy'n destun adolygiadau allanol ar flaenoriaethau gweithredu.

Rhagwelir y bydd rhaglen weithredu yn cael ei chyhoeddi erbyn mis Medi 2005.

Grwp Llywio Concordat Cymru
Mai 2005

[1]Ken Alexander, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

Ffôn: 029 20 82 3791 E-bost ken.alexander@wales.gsi.gov.uk